



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011

Cwestiynau ac Atebion
i gynorthwyo busnesau



Cwestiynau ac Atebion

Beth yw gofynion y gyfraith?

O 8 Ebrill 2011 ymlaen mae Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 yn atal plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul ar safleoedd busnes masnachol.

O 31 Hydref 2011 ymlaen mae Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar ddefnyddio gwelyau haul yng Nghymru.

Beth fydd gofynion y gyfraith newydd o 31 Hydref 2011 ymlaen?

Bydd y gyfraith newydd yn berthnasol i fusnesau sy'n darparu gwelyau haul i'w defnyddio ar safle'r busnes. Bydd yn:

- ei gwneud yn ofynnol bod y defnydd o welyau haul ar safle'r busnes yn cael ei oruchwylio;
- atal plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul lle mae'r busnes yn gweithredu ar safle domestig;
- ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth iechyd benodedig ar ddefnyddio gwely haul i'r defnyddwyr;
- yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio offer amddiffyn llygaid.

Mae'r gyfraith newydd hefyd yn gwahardd gwerthu neu hurio gwelyau haul i blant a phobl ifanc o dan 18 oed.

Beth sy'n digwydd os yw busnes yn methu â chydymffurfio â'r gofynion; neu os caiff gwely haul ei werthu neu'i hurio i blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed?

Mae peidio â chydymffurfio â'r gyfraith newydd yn drosedd a gellir gosod dirwy o hyd at £5,000.

O dan y gyfraith newydd, y person sy'n berchen ar y busnes sydd wedi cyflawni'r drosedd – nid cyflogaion y person hwnnw, fel y goruchwylydd er enghraifft (gweler isod).

Ydy'r gyfraith newydd yn berthnasol i bob busnes gwelyau haul?

Ydy, hyd yn oed i'r rheini sy'n cynnig y defnydd o wely haul fel gwasanaeth atodol e.e. fel rhan o becyn mewn gwesty.

Ydy'r rheoliadau'n berthnasol os na chodir tâl am ddefnyddio'r gwely haul?

Ydyn, nid oes yn rhaid i daliad gael ei wneud, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, am ddefnyddio'r gwelyau haul er mwyn i fusnes sy'n darparu gwelyau haul fod o fewn cwmpas y gyfraith newydd.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun o dan 18 oed yn defnyddio'r gwely haul y tu allan i oriau busnes?

Bydd hyn yn fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith newydd ac felly'n drosedd.

Oes yn rhaid i berchennog y busnes fod ar y safle drwy'r amser yn ystod oriau busnes?

Nac oes, ond mae'n rhaid bod yno oruchwylydd bob tro y mae person yn defnyddio gwely haul neu'n ymweld â'r safle i ddefnyddio gwely haul.

Pwy yw'r goruchwylydd?

Gall y goruchwylydd fod y sawl sy'n rhedeg y busnes, neu'n gyflogai neu'n asiant i'r person hwnnw.

A oes angen hyfforddiant penodol ar y perchennog neu'r goruchwylydd?

Nac oes, ond mae'n rhaid i'r goruchwylydd fod yn gymwys i oruchwylio, fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith newydd.

All y goruchwylydd barhau i gyflawni dyletswyddau eraill pan fo'r cwsmer yn gofyn am ddefnyddio gwely haul, e.e. cynnig triniaeth i'r dwylo?

Gall, ond mae'n rhaid i'r goruchwylydd fodloni'r cyfrifoldebau a osodir arno er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith newydd.

Beth y mae'n rhaid i oruchwylydd ei wneud?

I grynhoi, mae'n rhaid i oruchwylydd:

- sicrhau bod y defnyddwyr dros 18 oed;
- helpu'r defnyddwyr i asesu pa fath o groen sydd ganddynt;
- rhoi canllawiau i'r defnyddwyr ar ddefnyddio'r gwely haul;
- rhoi cyngor i'r defnyddwyr ar ddefnyddio'r gwely haul yn ddiogel;
- rhoi'r wybodaeth iechyd benodedig i'r defnyddwyr; a
- darparu offer amddiffyn llygaid a sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, eu bod yn cael eu defnyddio.

Sut y mae'r goruchwylydd yn gwirio oedran?

Nid yw hyn yn cael ei nodi yn y gyfraith newydd. Gallai goruchwylydd ofyn am y dogfennau canlynol er mwyn gwirio oedran y defnyddiwr:

- pasbort;
- trwydded yrru cerdyn-llun yr Undeb Ewropeaidd;
- cerdyn adnabod â llun arno gyda hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS); neu
- unrhyw ddogfen briodol arall.

Mae'n drosedd i blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed ddefnyddio gwely haul. Nid yw'n ddigon da i'r goruchwylydd benderfynu bod y person ifanc yn edrych dros 18 oed. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni trosedd.

A oes angen i oruchwylydd ddarparu'r wybodaeth iechyd benodedig i gwsmer bob tro y mae'n ymweld?

Oes, mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei darparu bob tro y mae person yn bwriadu defnyddio'r gwely haul ar y safle.

A gewch chi ddangos gwybodaeth arall ynghylch iechyd ar y safle sy'n cynnig gwelyau haul?

Na chewch. Ni chaiff busnesau gwelyau haul ddarparu na dangos unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys datganiadau ynghylch effeithiau gwelyau haul ar iechyd. Mae hyn yn cynnwys datganiadau sy'n nodi bod gwelyau haul yn 'hybu lefelau Fitamin D, yn cryfhau eich system imiwnedd neu yn gwella cyflwr eich croen'.

Pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith newydd?

Awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r gyfraith newydd yn eu hardaloedd hwy.

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Gall busnesau a'r cyhoedd gael canllawiau manwl yn: www.cymru.gov.uk/iechyd; neu gan eich awdurdod lleol.